

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	22 Tachwedd 2023
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	Julie Matthews / Gary Williams
<b>Pennaeth Gwasanaeth</b>	Catrin Roberts
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Gerry Lapington
<b>Teitl</b>	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am reolaeth lechyd a Diogelwch yn CSDd yn ystod 2021-2022.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn adolygu cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau arno.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Crynodeb. Mae'r manylion sy'n ymwneud â'r crynodeb hwn ar gael fel Atodiad

1. Mae'r asesiad cyffredinol o ddull Cyngor Sir Ddinbych o weithredu systemau lechyd a Diogelwch ac o'r modd y mae gweithwyr yn ymwneud ag lechyd a Diogelwch ill dau yn aros yr un fath ac yn cyrraedd sicrwydd canolig (melyn).

Mae hyn yn golygu, er bod lle i wella, mae systemau rheoli lechyd a Diogelwch yr ydym wedi dod ar eu traws wedi'u datblygu a'u cofnodi yn gyffredinol. Ar y cyfan, nodir a rheolir peryglon sylweddol er mwyn lleihau risg. Ar y cyfan, mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli lechyd a Diogelwch.

Mae'r diwylliant Iechyd, Diogelwch a Lles yn CSDd wedi bod ar drywydd gwelliant parhaus ers sawl blwyddyn. Roedd pandemig Covid 19 yn her sylweddol i'r ffordd yr oeddem yn gweithio a rheoli diogelwch yn y gweithle, ac mae'r "Ffyrdd Newydd o Weithio" a ddaeth yn ei sgil wedi parhau â'r her hon. Gan ymateb i'r her, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i'n helpu i ddychwelyd at y llwybr gwelliant parhaus.

Mae'r cofnod damwain / digwyddiad ar gyfer y flwyddyn a hanner yn dangos lefel gymaradwy o adroddiadau i'r blynyddoedd cyn Covid.

Cynhaliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymweliad dirybudd â Meifod Wood Products i edrych ar reolaethau llwch mewn amgylchedd gwaith coed. Gwelodd yr arolygydd fod y gweithle'n cael ei reoli'n dda ar y cyfan er bod dau bryder a oedd yn ymwneud â llwch wedi'u codi. Cafodd y pryderon eu trin yn brydlon gan y tîm rheoli ar y safle ac mae'r Awdurdod wedi cau'r achos heb unrhyw gamau gweithredu a heb fod angen camau dilynol.

Cawsom ddiwyddiad ar "Ymweliad Addysgol" ym mis Tachwedd 2022 pan gafodd disgybl a chymhorthydd addysgu eu gwahanu oddi wrth eu prif grŵp a mynd ar goll yn ystod taith gerdded ceunant. Cafodd y digwyddiad ei ymchwilio gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Gwnaeth canlyniad yr ymchwiliad nodi rhai pwyntiau dysgu i'n hysgolion a darparwr y digwyddiad. Gwnaeth y cynllun gweithredu a roddwyd ar waith yn dilyn yr ymchwiliad nodi'r angen i adolygu proses Evolve, yr angen i'r darparwr adolygu eu prosesau eu hunain, hyfforddiant i staff ysgol ac adolygiad o'r broses reoli sy'n ymwneud ag ymweliadau addysgol mewn ysgolion. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae gwaith monitro Dirgryniad Llaw a Braich wedi parhau trwy'r cyfnod adrodd gyda rhai anawsterau wedi'u nodi, yn sgil hyn, adolygwyd y broses a chyflwynwyd cynllun gweithredu i'r Tîm Arwain Strategol a gefnogodd y camau a nodwyd. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Ni roddwyd gwybod i Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am unrhyw ddiagnosis ychwanegol o Ddirgryniad Llaw a Braich na Syndrom Twnnel y Carpws. Mae lefel bresennol y risg sy'n ymwneud â gweithwyr sy'n agored i Ddirgryniad Llaw a Braich wedi'i asesu fel sicrwydd canolog.

4.2. Caiff cefnogaeth Arbenigol Iechyd a Diogelwch yn CSDd ei darparu gan:

Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl. Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:

- 1 Rheolwr Tîm / Ymgynghorydd
- 1 Uwch Swyddog / Ymgynghorydd
- 1 Swyddog / Ymgynghorydd
- 1 Ymgynghorydd Cynorthwyol
- 1 Swyddog Risg Ffordd / Ymgynghorydd
- 1 Swyddog Technegol (rhan amser, 3 diwrnod yr wythnos)

Swyddogion sy'n seiliedig mewn gwasanaethau:

Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau

- 1 Swyddog arbenigol Adeiladu / Ymgynghorydd
- Tîm cydymffurfiaeth adeiladau sy'n gofalu am ddiogelwch cyfleusterau gan gynnwys nwy, trydan, systemau dŵr, asbestos a than.

Mae nifer o gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yr undeb hefyd sy'n gweithio ar draws CSDd.

4.3. Ystadegau damwain/digwyddiad ar gyfer:

- Blwyddyn ariannol 01.04.2022 i 31.03.2023 wedi'u cynnwys fel Atodiad 2.
- Blwyddyn ariannol 01.04.2023 i 20.10.2023 wedi'u cynnwys fel Atodiad 3.
- Mae'r duedd ar gyfer 2020, 2021 a 2022 wedi'u cynnwys fel Atodiad 4.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

5.1. Disgwylir safonau Iechyd a Diogelwch da ym mhob maes y mae'r Awdurdod Lleol yn ei reoli ac mae hynny'n sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol. Os ydym yn rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles yn iawn yn ein gweithleoedd, mae'n cefnogi dyhead Cyngor wedi'i redeg yn dda ac mae'n dangos diwylliant lle mae pobl yn bwysig.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**Is-bennawd (dileer fel y bo'n briodol)**

6.1. Nid oes unrhyw gost ychwanegol ar gyfer rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles yn iawn yn ein gweithleoedd, yn wir, gall helpu ag effeithlonrwydd.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Adroddiad diweddarau blynyddol yw hwn, felly nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Amherthnasol

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Adroddiad blynyddol yw hwn sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Adroddiad Llywodraethu ac Archwilio yw hwn, y Pwyllgor fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau y bernir eu bod yn angenrheidiol.